

## AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL

2 Ebrill 2014

Yn bresennol: Y Cynghorydd M James (Cadeirydd)  
Mr A Archer, y Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, y Cynghorwyr S  
Hudson, O James, Mrs L Jenkins, B Kilmister, Mrs A Lee, RM Lewis,  
PJ Morgan, R Owens a DWM Rees, Mr AE Sangster, Mrs M Thomas  
a'r Cynghorydd M Williams.

[Cyrhaeddodd Ms C Gwyther yn ystod y drafodaeth ar adroddiad 17/14,  
Archwiliad Mewnol 2013/14 (*gweler Cofnod 10*)]

(Swyddfeydd APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10:00-11:40)

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mr D Ellis.

**2. Datgelu Buddiant**

Datgelodd Mr AE Sangster fuddiant yn Eitem 28/14 Cyflogau Aelodau  
(*Gweler Cofnod 21*), ond arhosodd yn y cyfarfod tra'r oedd yn cael ei drafod.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2014 i'w cadarnhau  
a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5  
Chwefror 2014.

**4. Y Pwyllgor Rheoli Datblygu - Adroddiad am Gyfarfod**

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad am gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli  
Datblygu a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2014, 22 Ionawr 2014, 19 Chwefror 2014 a  
10 Mawrth 2014.

**5. Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy - Adroddiad am Gyfarfod**

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r adroddiad am y cyfarfod o Bwyllgor y Gronfa  
Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2014.

**6. Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol - Adroddiad  
am Gyfarfod**

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r adroddiad am y cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu  
Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2014.

**7. Pwyllgor Adolygu Cadwraeth a Chynllunio - Adroddiad am Gyfarfod**

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r adroddiad am y cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu  
Cadwraeth a Chynllunio a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2014.



8. **Pwyllgor Craffu - Adroddiad am Gyfarfod**  
**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r adroddiad am y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2014.
9. **Cyfansoddiad Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr ar gyfer 2014**  
**PENDERFYNWYD** bod y Panel ar gyfer 2014 yn cynnwys y Cynghorydd M James, Mr AE Sangster a'r Cynghorydd M Williams.

*[Cyrhaeddodd Ms C Gwyther yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol]*

10. **Archwiliad Mewnol 2013/14**

Dywedwyd, fel rhan o Raglen Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod, bod archwiliad o'r holl wasanaethau yn cael ei wneud ar raglen dreigl bum mlynedd gan Wasanaeth Archwiliad Mewnol Cyngor Sir Penfro. Ni nodwyd unrhyw ddiffygion sylweddol yn y rhaglen archwiliad mewnol ddiweddaraf ac roedd y sgôr sicrwydd a roddwyd yn sylweddol, er bod nifer o fân welliannau wedi cael eu hawgrymu.

Yn ystod 2013/14 roedd yr Archwiliad wedi canolbwyntio ar adolygiad o'r cylluniau canlynol, sef y Cynllun Gweithredu Cytûn, Technegau Archwilio gyda Chymorth Cyfrifiadur, Grantiau Ardaloedd Cadwraeth, Risgiau TG, Costau Gweithwyr, a'r Llwybr Cenedlaethol. Tynnodd y Rheolwr Cyllid sylw'r Aelodau at y gwendidau a'r risgiau yn yr adroddiad. Wrth drafod hyn, nododd rhai Aelodau bod nifer o argymhellion yr Archwilwyr wedi cael eu gwrthod, a holwyd y swyddogion am y rhain. Atebodd y Rheolwr Cyllid bod fformat yr adroddiad wedi newid ar gyfer 2013/14. Mewn blynyddoedd blaenorol roedd yr adroddiad yn hepgor eitemau a wrthodwyd ond eleni roeddynt yn cael eu cynnwys. At hynny, mewn rhai achosion, roedd yr Archwilwyr wedi camddeall systemau'r Awdurdod. Mewn un achos penodol argymhellwyd prynu system gostus pan na ellid cyfiawnhau pryniant o'r fath tra'r oedd gweithdrefnau presennol yr Awdurdod yn ddigonol. Nodwyd hefyd bod yr adroddiad wedi cael ei drafod yn fanwl gan y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol yn ei gyfarfod yn ddiweddar.

**NODWYD.**

11. **Cynllun Gwella 2014/15 - Rhan 1**

Atgoffwyd yr aelodau bod y Cynllun Gwella yn cyflwyno'r prif weithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer 2014/15 ac yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn 2013/14 gyda'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael. Roedd drafft o'r Cynllun Gwella wedi cael ei ystyried yn y cyfarfod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym mis Chwefror pan ofynnwyd am sylwadau'r Aelodau ar y Cynllun. Mae ychydig o fân newidiadau wedi eu gwneud i'r ddogfen ers hynny, ac mae angen diweddarau rhai mesurau ac ystadegau ar gyfer diwedd y flwyddyn. Byddai'r ddogfen yn cael ei chyfieithu a'i chyhoeddi cyn gynted ag y bo modd, yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol.



## **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Cynllun Gwella 2014/15 - Rhan 1.

### **12. Y Prosiect Gwreiddiau yng Nghastell Henllys**

Roedd adroddiad y Pennaeth Darganfod yn nodi'r cynnydd o ran y prosiect sy'n cael ei wneud yng Nghastell Henllys, a soniodd fod gwaith bellach wedi dechrau ar y safle. Yn ychwanegol at gyfraniadau'r Awdurdod, roedd y prosiect wedi cael cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd ynghyd â chyllid TMF gan Lywodraeth Cymru. Roedd y prosiect yn parhau ar y trywydd priodol, ond nid oedd unrhyw arian wrth gefn ar hyn o bryd. Felly, argymhellodd y swyddogion mai da o beth fyddai trosglwyddo £50,000 o arian dros ben o'r gronfa a glustnodwyd ar gyfer Castell Caeriw i gronfa wrth gefn a glustnodwyd yn benodol ar gyfer y Prosiect Gwreiddiau.

Roedd yr Aelodau'n pryderu y byddai'r gwaith yng Nghastell Henllys yn cael ei wneud yn ystod y tymor brig ar gyfer twristiaid. Cytunodd y swyddog bod hynny'n anffodus ond y byddai'r safle yn aros ar agor lle bynnag y bo modd a byddai cyn lleied o darfu â phosibl ar y cyhoedd. Byddai'r rhaglen ysgolion yn parhau yn unol â'r bwriad.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r argymhelliad i drosglwyddo arian i'r prosiect.

### **13. Adolygiad o Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Atgoffwyd yr Aelodau y cytunwyd ar Gytundeb Cyflawni yn nodi'r broses ar gyfer adolygu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (2009-13) yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi 2012. Fodd bynnag, bu'n rhaid gohirio'r amserlen er mwyn adlewyrchu Datganiad Polisi newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Tirweddau Gwarchoddedig yng Nghymru, yn ogystal â'r canllawiau arfaethedig gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gynllunio rheoli ar gyfer Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, ac adroddiad Comisiwn Williams. Er mwyn darparu ar gyfer yr oedi, roedd yr Aelodau wedi cytuno y dylid bwrw ymlaen â diweddariad technegol i'r Cynllun Rheoli (2009-13) er mwyn ymestyn oes y Cynllun tan ddiwedd 2014.

Bellach, mae cytundeb cyflenwi newydd wedi ei baratoi ar gyfer llunio Cynllun Rheoli 2015-19, ac roedd hyn ynghlwm wrth yr adroddiad i'r aelodau ei gymeradwyo. Ynndo roedd y camau allweddol ar gyfer adolygu'r Cynllun Rheoli ac roedd amlinelliad o sut y gallai pobl gymryd rhan. Roedd yr adroddiad hefyd yn cadarnhau aelodaeth y Grŵp Craidd, sy'n cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Rheoli Datblygu a'r Pwyllgorau Adolygu, ynghyd â Thîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod. Byddai hyn yn gweithredu fel fforwm a chorff trafod ar gyfer y prif ddogfennau a'r cynigion cyn i Awdurdod y Parc Cenedlaethol eu trafod/cymeradwyo. Byddai'r Grŵp hefyd yn agored i unrhyw swyddog arall neu Aelod o'r Awdurdod neu randdeiliaid allanol yn ôl y galw.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai'r Awdurdod yn cysylltu'r broses ymgynghori ar Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol gyda'r ymgynghoriad ar flaenoriaethau'r Awdurdod yn y dyfodol. Roedd angen hyn oherwydd y toriadau



ariannol. Byddai canolbwyntio ar amcanion tymor hir y Cynllun Rheoli yn helpu i lywio penderfyniadau tymor byrrach mewn perthynas â chyllid.

**PENDERFYNWYD** cytuno ar y Cytundeb Cyflawni diwygiedig ar gyfer Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

#### **14. Iechyd a Lles ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol**

Eglurodd y Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth bod amgylchedd y Parc Cenedlaethol yn llawn treftadaeth naturiol a hanesyddol, a'i fod felly'n adnodd iechyd a lles unigryw i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Roedd yn lleoliad ar gyfer gweithgareddau, egnïol a thawel fel ei gilydd, yn ogystal â chynnig amgylchedd o safon gydag aer glân, dŵr a thir. Roedd y rhain yn cynnig manteision o ran diogelu iechyd a gellid ystyried y Parc Cenedlaethol yn ased iechyd.

Felly, roedd gan yr Awdurdod ran i'w chwarae wrth fynd i'r afael ag afiechyd, a materion lles cysylltiedig fel tlodi ac allgáu cymdeithasol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys datganiad o'r sefyllfa yn ogystal â thri cam blaenoriaeth ar gyfer iechyd a lles a oedd yn adlewyrchu nodau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Roedd y gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan Bapur Cefndir a oedd ar gael i'r Aelodau.

Dywedodd yr aelodau bod yr adroddiad yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol a gofynnwyd a oedd gan yr Awdurdod gysylltiadau digon da ag asiantaethau eraill i'w alluogi i gyfrannu'n effeithiol at iechyd a lles, yn enwedig trwy waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Atebodd y Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth bod y Parcmy'n wedi bod yn gweithio yn y maes hwn ers blynyddoedd, a bod mwy fyth wedi ei wneud ers i'w swydd gael ei chreu. Ar hyn o bryd roedd hi'n gwasanaethu fel sylwedydd ar grŵp iechyd a lles y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Gofynnodd yr Aelodau a ellid anfon llythyr at y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gofyn i'r Awdurdod gael ei gynrychioli fel aelod llawn o'r is-grŵp iechyd a lles.

#### **PENDERFYNWYD:**

- a) bod y Datganiad Sefyllfa drafft ynghylch iechyd a'r camau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer yr Awdurdod, a nodir yn yr adroddiad, yn cael eu cymeradwyo.
- b) bod y Datganiad a'r Camau Blaenoriaeth a restrir yn cael eu defnyddio i lywio'r adolygiad presennol o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig, a'r adolygiad presennol o Gynllun Gweithredu'r Awdurdod ar Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant.

#### **15. Diwygiadau Arfaethedig i'r Bil Treftadaeth Drafft**

Soniwyd bod diwygiadau wedi eu cynnig i'r Bil Treftadaeth drafft a fyddai'n diwygio Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 i'w gwneud yn fwy cadarn ac effeithiol o ran diogelu safleoedd a henebion cofrestredig. Er bod cynnydd yn y difrod anghyfreithlon a achosir i henebion cofrestredig yng Nghymru, dim ond un erlyniad llwyddiannus a gafwyd o dan y Ddeddf yn y 25 mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd mae'r rhai sy'n difrodi neu'n gwneud gwaith heb



awdurdod i henebion cofrestredig, neu'n defnyddio offer canfod metel arnynt, yn aml yn dadlau nad oeddent yn gwybod bod yr henebion hynafol wedi eu cofrestru. Cynigiwyd felly i ddiwygio'r rhannau hynny o'r Ddeddf sy'n ymwneud â throeddau ac amddiffyniadau i roi mwy o gyfrifoldeb ar y personau hynny i gymryd camau rhesymol i gadarnhau a fyddai eu gweithredoedd yn effeithio ar heneb gofrestrdig.

**PENDERFYNWYD:**

- a) cytuno â'r cynnig i newid y troeddau a'r amddiffynfeydd yn adrannau 2, 28 a 42 o Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979; a
- b) bod y Rheolwr Diwylliant a Threftadaeth yn cael ei awdurdodi i ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â hynny.

**16. Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru: Defnyddio Amodau Cynllunio ar gyfer Rheoli Datblygiadau**

Soniwyd bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen diweddarau'r cyngor presennol yng Nghylchlythyr 35/95 ar weithredu amodau. Felly, roedd dogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi i ddisodli'r cylchlythyr hwnnw a fyddai'n rhoi arweiniad cyfoes o ran gweithredu amodau cynllunio yn effeithiol, yn ogystal â darparu rhestr wedi'i diweddarau o amodau enghreifftiol i hyrwyddo arfer gorau yn y defnydd o amodau yng Nghymru.

Y bwriad oedd y byddai'r Awdurdod yn cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad, ac y byddai ymateb ar y cyd hefyd yn cael ei baratoi ar ran tri Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, roedd angen caniatâd i ddirprwyo trafodaeth bellach o'r mater hwn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

**PENDERFYNWYD** dirprwyo'r cyfrifoldeb i drafod ac ymateb i ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar Ddefnyddio Amodau Cynllunio ar gyfer Rheoli Datblygu i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

*[Cyflwynodd y Cyngorydd A Lee ei hymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr adroddiad canlynol.]*

**17. Gorsaf Arfaethedig Gwres a Phŵer LNG South Hook, Herbrandston**

Rhoddodd y Pennaeth Rheoli Datblygu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar hynt yr ymchwiliad i'r cynnig hwn a fyddai'n dod i ben ar 23 Ebrill. Eglurodd bod yr ail rownd o wrandawiadau penodol wedi eu cynnal. Fodd bynnag, nid oedd yr awdurdod archwilio eisiau trafod y materion tai a godwyd gan yr Awdurdod, ac roedd hynny'n siomedig.

Cafwyd rhywfaint o drafod gyda'r Awdurdod hwn a Chyngor Sir Penfro ynghylch cynllun budd cymunedol. Fodd bynnag, nid oedd y Pennaeth Rheoli Datblygu yn gallu trafod hyn gyda'r aelodau oherwydd y cymal cyfrinachedd. Roedd trafodaethau ar y gweill, ac roedd y swyddog wedi egluro i'r ymgeiswyr na allai fwrw ymlaen â'r cynnig gyda'r cymal cyfrinachedd yn ei le. Byddai'n adrodd yn ôl i'r aelodau ar y mater hwn maes o law.



## **NODWYD.**

### **18. Cynllun Peilot i Ymchwilio i Ddarparu cylch 6 wythnos o Gyfarfodydd Pwyllgor Rheoli Datblygu**

Yn adroddiad y Pennaeth Rheoli Datblygu cynigiwyd cyflwyno cylch 6 wythnos o Bwyllgorau Rheoli Datblygu yn lle'r cylch misol presennol. Cynigiwyd hyn ar gyfer y cyfnod calendr 2014/15 fel cynllun peilot, gydag adolygiad ar ddiwedd y cyfnod.

Roedd yr ystadegau yn dangos y byddai symud i gylch 6 wythnos yn annhebygol o newid perfformiad y Pwyllgor o ran penderfyniadau cyn pen 8 wythnos. Rhagwelwyd y byddai newid o'r fath yn arwain at arbed amser y staff yn yr adran Rheoli Datblygu, ac amcangyfrifwyd y byddai hyn gymaint â 40 diwrnod y flwyddyn, oherwydd 8 cyfarfod fyddai'n cael ei gynnal yn hytrach na 12. Byddai hefyd yn arbed amser ac arian o ran y gynrychiolaeth gyfreithiol yn y cyfarfodydd hyn, ynghyd ag arbed amser o ran presenoldeb swyddogion eraill. Y gobaith oedd y byddai'r amser a arbedir yn cael ei ddefnyddio i wella perfformiad yr adran o ran cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru a boddhad cwsmeriaid, yn enwedig y gwasanaeth cyn ymgeisio, monitro datblygiadau ar ôl penderfynu arnynt, a chyflwyno cynllun swyddog ar ddyletswydd.

Roedd yr aelodau'n cefnogi'r cynllun peilot, ond roeddynt yn awyddus i sicrhau na fyddai'r cyhoedd o dan anfantais wrth gyflwyno cylch hirach, er enghraifft pan fyddai cais yn cael ei ohirio. Atebodd y swyddogion nad oeddent yn credu y byddai hynny'n digwydd ac roeddynt yn gobeithio y byddent mewn gwirionedd yn elwa oherwydd yr arbedion amser a ragwelwyd. Soniwyd bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gweithredu cylch 6 wythnos o gyfarfodydd. Ni wyddai'r swyddogion am unrhyw effaith andwyol ar y cyhoedd, ac nid oedd wedi effeithio ar eu perfformiad.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, ar gyfer y cyfnod calendr 2014/15, yn cyfarfod bob 6 wythnos fel cynllun peilot, ac y byddai hyn yn cael ei adolygu ac adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ar ddiwedd y cyfnod hwn.

### **19. Calendr o Gyfarfodydd 2014/15**

Roedd yr adroddiad gerbron yr Aelodau yn cyflwyno dau galendr o gyfarfodydd – yn naill yn dilyn cylch misol traddodiadol y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r llall yn dangos cylch chwe wythnos fel y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad a drafodwyd eisoes [gweler cofnod 18]. Gan fod yr aelodau wedi cytuno i fabwysiadu'r cylch chwe wythnos o gyfarfodydd, cafodd y calendr perthnasol ei gyflwyno i'r aelodau iddynt gytuno arno.

Tynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd sylw'r aelodau bod y Calendr Cyfarfodydd cyfredol yn dangos bod cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Cadwraeth a Chynllunio ar 18 Mehefin 2014. Fodd bynnag, cytunwyd eisoes i ddiddymu'r Pwyllgor Adolygu Cadwraeth a Chynllunio a'r Pwyllgor Adolygu



Twristiaeth a Hamdden, a chreu Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn eu lle. Felly, nid oedd bwriad i gynnal y cyfarfod ar 18 Mehefin. Byddai cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn cael ei gynnal ar 9 Gorffennaf.

**PENDERFYNWYD** bod y calendr o gyfarfodydd ar gyfer 2014/15, a oedd yn dangos cylch chwe wythnos o Bwyllgorau Rheoli Datblygu, yn cael ei gymeradwyo.

## 20. Digwyddiadau Corfforaethol

Roedd adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democraidaidd yn nodi'r digwyddiadau yr oedd Aelodau'r Awdurdod wedi cael gwahoddiad i'w mynychu, a gofynnwyd am ganiatâd a mynegiant o ddiddordeb ar eu cyfer.

### **PENDERFYNWYD:**

- a) bod Mrs G Hayward a'r Cynghorydd M James yn cael caniatâd i fynychu Cynhadledd Cynllunio Cymru 2014 yng Nghaerdydd;
- b) bod y Cynghorwyr R Owens ac M James yn cael eu hawdurdodi i fynychu Cynhadledd Flynyddol CLILC yn Llandudno;
- c) bod unrhyw Aelodau newydd neu bresennol nad oedd wedi bod o'r blaen yn cael eu hawdurdodi i fynychu Cwrs Cynefino Cenedlaethol yr Aelodau yn Aberhonddu;
- d) bod y Cynghorwyr M James, Mrs L Jenkins a P Harries, a Mr AE Sangster yn cael eu hawdurdodi i fynychu Cynhadledd John Muir a Gweithdy Cymdeithas Parciau Cenedlaethol y DU yn Perth, Yr Alban;
- e) bod yr Awdurdod yn cael ei gynrychioli yn y Gynhadledd Europarc yn Killarney, Iwerddon, gan uchafswm o bedwar cynrychiolydd (gan gynnwys swyddogion), ac
- f) bod yr holl Aelodau yn cael eu hawdurdodi i fynychu Seminar Flynyddol Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru, a fyddai'n cael ei chynnal eleni gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

## 21. Cyflogau Aelodau

Soniwyd bod Panel Taliadau Annibynnol Cymru wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ym mis Chwefror 2014 mewn perthynas â'r cyflogau sy'n daladwy i Aelodau. Y prif newidiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15 oedd:

- cynnydd yn y cyflog sylfaenol ar gyfer 'Aelod cyffredin', o £3,550 i £3,600 y flwyddyn;
- cynnydd yn y Cyflog Uwch sy'n daladwy i Gadeirydd yr Awdurdod, o £8,875 i £12,300 y flwyddyn;
- bod y Cyflog Uwch sy'n daladwy i Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd(ion) pwyllgorau eraill yn cael eu talu naill ai ar Lefel 1 (£7,300) neu ar Lefel 2 (£6,000) y flwyddyn i adlewyrchu cyfrifoldebau priodol. Fel cynt, gallai hyd at bedair swydd gael Cyflog Uwch;
- Ni fyddai newid yn y cyfraddau teithio a chynhaliaeth, er bod y Panel wedi penderfynu cael gwared ar y gyfradd arbennig ar gyfer bwrw'r nos yng Nghaerdydd, a



- Roedd yn ofynnol i'r Awdurdod hefyd bennu uchafswm nifer y diwrnodau y gellid talu Aelodau'r Pwyllgor Safonau Annibynnol mewn unrhyw flwyddyn (ar hyn o bryd 4 diwrnod y flwyddyn); fodd bynnag, nid oedd newid yn y ffioedd.

Byddai'r fframwaith cyflog newydd yn dod i rym ar ddyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r opsiynau ar gyfer taliadau o ran nifer a lefel y Cyflogau Uwch i'w talu gan yr Awdurdod. Cynigiodd yr Aelodau y dylai'r sefyllfa aros fel y mae, gyda Chadeirydd, Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cael Cyflog Uwch, a chyflogau'r Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cael eu talu ar lefel 2. Cynigiwyd hefyd y dylai nifer y diwrnodau ar gyfer talu Aelodau'r Pwyllgor Safonau Annibynnol barhau yn 4 diwrnod.

**PENDERFYNWYD:**

- a) bod Adroddiad Blynnyddol Panel Taliadau Annibynnol Cymru 2014/15, a'r cynnydd yn sgil hynny yng Nghyflogau Sylfaenol ac Uwch yr Aelodau, yn cael ei nodi,
- b) y dylai Cyflog Uwch gael ei dalu i Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu,
- c) y dylai'r Cyflog Uwch gael ei dalu i Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar Lefel 2, a
- d) y dylai uchafswm y diwrnodau ar gyfer talu Aelodau'r Pwyllgor Safonau Annibynnol barhau yn 4 diwrnod y flwyddyn.

**22. Darparu Gwasanaethau Cyfreithiol**

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau bod Cyfreithiwr yr Awdurdod wedi ymddeol tua 18 mis yn ôl, ac ers hynny bod y gwasanaethau cyfreithiol wedi cael eu darparu gan gyfuniad o sefydliadau. Roedd y cyngor cynllunio yn cael ei ddarparu gan Geldards, materion llywodraethu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a chyngor cyfreithiol arall yn cael ei ddarparu gan y fframwaith gwasanaethau cyfreithiol. Contract blwyddyn oedd hyn yn wreiddiol ond roedd wedi cael ei ymestyn wedi hynny. Bellach roedd yn bryd adolygu'r contractau ac roedd bwriad i fynd allan i dendr. Roedd y tendr wedi'i ysgrifennu yn y fath fodd fel y gallai'r tri maes gwaith gael eu gwneud gan un sefydliad neu gan dri, fel ar hyn o bryd, a'r gobaith oedd y byddai'r gwasanaeth yn ei le erbyn 1 Awst.

**PENDERFYNWYD** y gallai'r tendr ar gyfer darparu gwasanaethau cyfreithiol i'r Awdurdod gael ei hysbysebu.

**23. Adroddiad y Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod, ers y cyfarfod diwethaf, wedi mynychu nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau ar ran yr Awdurdod, gan gynnwys cyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Roedd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, John Griffiths, wedi cadarnhau ei fwriad i gynnal adolygiad llywodraethu. Fodd





bynag, gan gydnabod bod materion eraill i'w datrys, nid oedd yn gallu pennu amserlen, ac roedd trafodaethau ar y gweill gyda Carl Sargeant, y Gweinidog Tai ac Adfywio, ar lefel Aelodau a lefelau swyddogion, ynghylch y prosiect peilot ar gynllunio sydd i gael ei wneud ar y cyd â Chyngor Sir Penfro. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi cael y fraint o fynychu noson Gwobrau Arwyr Lleol Radio Sir Benfro, a fu'n ysbrydoledig iawn.

Ers 1 Ebrill, roedd yr Awdurdod wedi cymryd y cyfrifoldeb am arwain Parciau Cenedlaethol Cymru fel rhan o'i gylchdro dwy flynedd. Byddai hyn yn golygu Cadeiryddiaeth Parciau Cenedlaethol Cymru ac Is-gadeiryddiaeth Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Aeth y Cadeirydd ymlaen i ddweud bod y posteri 60 pen-blwydd yn parhau i ennill gwobrau, y tro hwn yn y Gwobrau Dylunio Marchnata. Diolch i arian gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo twristiaeth yn dilyn y stormydd diweddar, byddai'r posteri yn ailymddangos mewn gorsafodded ar y lein trê'n i Lundain yr wythnos nesaf. Yn olaf, gwahoddwyd yr aelodau i gymryd copi o'r cylchgrawn *Coast to Coast*, a oedd ar gael ar gyfer 2014.

